19 Tachwedd 2026

Annwyl

ATISN 26-00085 – Comisiynydd y Gymraeg

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 22 Hydref 2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Pob gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg rhwng 01.09.26 a 21.10.26 sydd yn cyfeirio at Efa Gruffudd Jones a'i swydd fel Comisiynydd y Gymraeg.
2. Pob gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg rhwng 01.09.26 a 21.10.26 sydd yn cyfeirio at Osian Llewelyn a'i swydd fel Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg.

Ein hymateb

Amgaeaf yr wybodaeth y gofynnwyd amdani:
1. Dogfen 1 - Llythyr wrth Efa Gruffudd Jones i Rhun ap Iorwerth AS, Prif Weinidog Cymru, dyddiedig 20 Hydref 2026.
2. Dogfen 2 - Llythyr wrth Rhun ap Iorwerth AS, Prif Weinidog Cymru i Efa Gruffudd Jones, dyddiedig 20 Hydref 2026.

Rwyf wedi penderfynu bod rhywfaint o wybodaeth wedi'i heithrio rhag datgelu o dan adran 40(2) (Gwybodaeth Bersonol), ac adran 21 (Gwybodaeth sy'n hygyrch drwy ddulliau eraill) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly mae'n cael eu cadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu eithriad 40(2) wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

O ran adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: Mae peth gwybodaeth mewn gohebiaeth yn ymwneud â chyflawniadau diweddar swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r wybodaeth honno eisoes ar gael i'r cyhoedd yn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2025-26: adroddiad_blynyddol_cymraeg_gwefan.pdf

Camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

ATODIAD A

Gweithredu Eithriadau

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus drefnu bod gwybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd yn ehangach. Gan fod rhyddhau'r wybodaeth yn golygu ei bod ar gael i'r byd, nid dim ond i'r sawl a wnaeth y cais, mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau trefnu bod yr wybodaeth ar gael i bawb. Mae'r ystyriaethau ehangach hynny yn drech nag unrhyw fuddiant personol sydd gan y sawl sy'n gwneud y cais, o ran cael gweld yr wybodaeth.

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Gohebiaeth e-bost rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, a gwybodaeth bersonol am delerau cyflogaeth unigolion.

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r rhesymau dros weithredu Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Gweithredu Adran 40(2) (Gwybodaeth Bersonol) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gohebiaeth e-bost sy'n trafod gwybodaeth bersonol, telerau ac amodau cyflogaeth personol unigolion, a manylion personol ynghylch ymddiswyddo cael eu heithrio rhag datgelu.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000: Adran 40(2)

Mae adran 40(2) ynghyd â'r amodau yn adran 40(3A) yn darparu eithriad absoliwt os byddai datgelu'r data personol yn torri unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.

Diffinnir 'data personol' yn adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Data 1998 ac mae'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw a nodwyd neu y gellir ei adnabod. Unigolyn byw adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn enwedig drwy gyfeirio at unigolyn fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn.

Rydym wedi dod i'r casgliad, yn yr achos hwn, bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cynnwys data personol trydydd parti.

O dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae data personol wedi'i eithrio rhag rhyddhau os byddai datgelu yn torri un o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Erthygl 5 o'r GDPR. Rydym o'r farn mai'r egwyddor gyntaf yw'r mwyaf perthnasol yn yr achos hwn. Mae hyn yn nodi bod rhaid i ddata personol fod:

"wedi'i brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas â'r gwrthrych data"

Y sail gyfreithlon sydd fwyaf perthnasol mewn perthynas â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw Erthygl 6(1)(f). Mae hyn yn nodi:

"Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y rheolydd neu gan drydydd parti ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu goresgyn

gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y gwrthrych data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo'r gwrthrych data yn blentyn."

Wrth ystyried cymhwyso Erthygl 6(1)(f) yng nghyd-destun cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mae angen ystyried y prawf tair rhan ganlynol:

- **Y prawf budd cyfreithlon**: A yw buddiant cyfreithlon yn cael ei dilyn yn y cais am wybodaeth;
- **Y prawf Angenrheidrwydd**: a yw datgelu'r wybodaeth / cadarnhad neu wadu ei bod yn cael ei gadw yn angenrheidiol i fodloni'r buddiant cyfreithlon dan sylw;
- **Y prawf cydbwyso**: A yw'r buddiannau uchod yn goresgyn buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid y gwrthrych data.

Mae ein hystyriaeth o'r profion hyn wedi'i nodi isod:

1. Y prawf budd cyfreithlon
Mae buddiant cyfreithlon yn yr ymwneud rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

2. A yw rhyddhau gwybodaeth yn angenrheidiol?
Rydym yn cydnabod mai'r unig ffordd y gellid cyrchu rhagor o wybodaeth fyddai trwy ddatgelu. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o'r data personol sy'n cael ei gadw'n ôl, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r wybodaeth yn ymwneud ag ymddiswyddiadau'r naill unigolyn neu'r llall ac, o ganlyniad, ni fyddai datgelu yn ychwanegu unrhyw beth at yr hyn sydd eisoes yn hysbys. Gan nad yw'r wybodaeth yn ymwneud â'r rhesymau y tu ôl i'r ymddiswyddiadau, rydym yn dod i'r casgliad nad oes angen datgelu.

Dim ond rhai o'r cyfathrebiadau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd fydd yn ymwneud â swyddogaethau cyhoeddus. Gall cyfathrebiadau ymwneud ag amrywiaeth o faterion nad oes budd cyhoeddus cyfreithlon mewn perthynas â hwy. Nid oes unrhyw fuddiant cyfreithlon yng nghynnwys yr ohebiaeth sy'n cael eu dal yn ôl. Fodd bynnag, er mwyn cyflawnrwydd rydym wedi cymhwyso pob un o'r tri cham o'r prawf budd cyfreithlon.

3. Y cydbwysedd rhwng buddiannau cyfreithlon a buddiannau'r gwrthrych data neu hawliau a rhyddid sylfaenol

Ar ôl cydbwyso, credwn y dylai'r wybodaeth gael ei chadw yn ôl o dan adran 40(2) oherwydd ei natur bersonol. Rydym wedi penderfynu y byddai datgelu'r wybodaeth yn datgelu gwybodaeth sy'n hysbys i ychydig iawn o bobl, ac y byddai'r pynciau data yn debygol iawn o wrthwynebu. Byddai datgelu gwybodaeth y mae gan y pynciau data ddisgwyliad rhesymol o breifatrwydd mewn perthynas â hi felly byddai'n torri eu hawliau a'u rhyddid sylfaenol.

Gan na fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn gyfreithlon o dan Erthygl 6(1)(f), a chan nad oes unrhyw amod arall o Erthygl 6 yn berthnasol, ni fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn gyfreithlon oherwydd na fyddai'n cydymffurfio â'r egwyddor diogelu data gyntaf. Felly, mae wedi'i atal o dan adran 40(2) a (3A) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae adran 40(2) yn eithriad absoliwt ac nid yw'n ddarostyngedig i'r prawf budd y cyhoedd.